Blwyddyn Meithrin

Staff

Sian Evans
Ceri Rowlands
Dilys Hughes
Glynis Ellis
Lona Roberts

Amser Caleb

Bydd Cai a Mai yn ein dysgu am deimladau hapus, blin, trist a chyffrous yn Uned 3

ac yn Uned 4 o'r rhaglen daw'r gwningen fach i'n dysgu sut i reoli'n tymer.

Themau'r tymor

Adar bach y gaeaf oer.

- cyfle i ddod i adnabod yr adar bach sydd yn dod i'r iard i ifwydo

Bili Broga.

Bili Broga yw un o ffrindiau'r gwningen fach sydd yn ein helpu yn Uned 4 Caleb. Mae'n stori dda i'n arwain at y Gwanwyn a'i ryfeddodau.

Gwaith Cartref

Bydd cyfle i chi ddilyn y gwaith yr ydym yn ei wneud yn ystod Amser Caleb trwy drafod y taflenni gwaith cartref a'u llenwi gyda'ch plentyn.

Byddwn yn parhau i newid y gemau benthyg iaith a rhif pob dydd Llun a dydd Gwener

Allan yn yr awyr agored.

Y mae gennym guddfan i wylio adar a byddwn yn bwydo'r adar a dod i'w adnabod. Cawn arsylwi'r tywydd a chyn bo hir bydd arwyddion y Gwanwyn yn ymddangos.

Addysg Gorfforol

Pob dydd Llun byddwn yn cael cyfle i fynd allan i badlo beic a dringo fframiau.

Ar ddydd Gwener daw cyfle i symud yn y Neuadd. Byddwn yn tynnu a gwisgo esgidiau a sannau ar gyfer y gweithgareddau a byddem yn ddiolchgar i chi am ymarfer hyn adref.